*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Jonathan Blyde – Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad, Ebrill 2026 – Mehefin 2026** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi diweddariad i aelodau'r Panel Gweithredol (y Panel) ar berfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 – 30 Mehefin 2026 (Chwarter un 2026/27). Mae'r mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 ac maent yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. **Gwella Presenoldeb y Gweithlu wrth iddo Dyfu**
   i. Gostyngodd nifer yr achosion cyffredinol o absenoldeb salwch gan 16.3% yn Chwarter Un 2026/27, tra bod cyfanswm y staffio wedi cynyddu gan 25 o gyflogeion i 1,004 (o 31 Mawrth i 30 Mehefin).
   ii. Cafodd y gostyngiad yn y diwrnodau a gollir oherwydd absenoldeb salwch yn Chwarter Pedwar 2025/26 ei gynnal yn Chwarter Un. Arhosodd yr absenoldeb salwch cyffredinol yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn yr un cyfnod yn 2025/26, sy'n dangos gwelliant parhaus o ran rheoli absenoldeb salwch.

3. **Galw cynyddol mewn Galwadau Gwasanaeth Arbennig**
   Aethpwyd at 413 o ddigwyddiadau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn Chwarter Un 2026/27, sef y nifer uchaf o alwadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt yn ystod unrhyw gyfnod rhwng Ebrill a Mehefin yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ceisiadau i gynorthwyo asiantaethau eraill.

4. **Nifer uchel o Danau Damweiniol mewn Cartrefi, gyda nifer isel o Anafiadau/Marwolaethau**
   Yn Chwarter un 2026/27 gwelwyd y nifer uchaf o Danau Damweiniol mewn Cartrefi (TDCau) a gofnodwyd mewn Chwarter cyntaf dros y pum mlynedd ddiwethaf; fodd bynnag, cofnodwyd llai o anafiadau/marwolaethau nag ar gyfer unrhyw Chwarter cyntaf yn ystod y cyfnod hwnnw.

5. **Gweithgareddau Atal yn dangos cynnydd mewn Blaenoriaethu ar Sail Risg**
Cynyddodd yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd o 1,265 (27%) yn Chwarter Un 2025/26 i 1,408 (39%) yn Chwarter Un 2026/27. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws parhaus y Gwasanaeth ar gynyddu cyfran yr ymyriadau risg uchel.

**SYLWADAU GAN DÎM ARWEINYDDOL Y GWASANAETH**

6. Awgrymwyd diwygiadau i'r fformat a'r geiriad gan y tîm Arweinyddol. Mae'r rhain i gyd wedi'u gweithredu i helpu i roi eglurder.

**ARGYMHELLIAD**

7. Argymhellir bod yr Aelodau yn:

   **i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

**CEFNDIR**

8. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod weithio i leihau risg a mynd i'r afael â diogelwch ei gymunedau ac i wneud hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r CGRhRC yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn. Gan ganolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, adroddir ar y perfformiad bob chwarter, gyda phwyslais ar risgiau allweddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

**GWYBODAETH**

9. Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 – 30 Mehefin 2026 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar Chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2026/27, a gwneir cymariaethau â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2025/26).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Yn dangos perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC) 2026/27. |
| Cyllideb | Yn caniatáu i weithgareddau a risgiau allweddol gael eu hystyried fel rhan o'r broses pennu cyllideb. |
| Cyfreithiol | Yn cynorthwyo'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos y modd y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Mae'r adrodd yn cyd-fynd â CGRhRC 2026/27 ac yn cynnwys diweddariad ar faterion staffio. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau wedi'u nodi. |
| Risgiau | Yn dangos sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei ddarpariaeth yng nghyd-destun risgiau cymunedol. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro Perfformiad:
Ebrill 2026 – Mehefin 2026

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys

**Ein Hegwyddor Pobl** .......... **4**
1 Absenoldeb Salwch .......... 4
i. Pob Absenoldeb Salwch .......... 4
ii. Salwch Byrdymor .......... 5
iii. Salwch Hirdymor .......... 7
**Ein Hegwyddor Atal** .......... **10**
2 Pob Digwyddiad .......... 10
3 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDCau) .......... 11
4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Cartrefi .......... 14
5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi .......... 16
6 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi .......... 17
7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau) .......... 20
8 Archwiliadau Diogel ac Iach .......... 23
**Ein Hegwyddor Diogelu** .......... **27**
9 Galwadau Diangen .......... 27
10 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol .......... 29
11 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai .......... 30
12 CEF Berwyn .......... 32
**Ein Hegwyddor Ymateb** .......... **34**
13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA) .......... 34
14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp .......... 36
15 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg .......... 38
**Ein Hegwyddor Amgylchedd** .......... **40**
16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau .......... 40
17 Tanau gwyllt .......... 41
18 Llifogydd ac Achub o Ddŵr .......... 42
**Geirfa** .......... **45**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch


Mae'r Gwasanaeth yn annog cyflogeion i gynnal lefelau presenoldeb da tra'n cydnabod y gall salwch atal cyflogeion rhag mynd i'r gwaith.

Yn ystod Chwarter 1 2026/27, roedd absenoldeb salwch yn cyfrif am 4.5% o gyfanswm yr amser a gollwyd. Mae hyn yn ostyngiad o 4.9% ar y flwyddyn flaenorol ac mae'n dangos gwelliant cyffredinol mewn presenoldeb.

Ar 30 Mehefin 2026, roedd GTAGC yn cyflogi 1,004 o bobl, cynnydd o 25 ers 31 Mawrth 2026.

Sylwch na fydd niferoedd yr achosion yn ystod y flwyddyn hyd yma yn hafal i swm y chwarteri, gan fod rhai absenoldebau'n ymestyn dros fwy nag un chwarter. Gall ffigurau hefyd amrywio rhwng chwarteri oherwydd newidiadau mewn data cyflogeion.

### i. Pob Absenoldeb Salwch




*Ffigur 1. Nifer yr achosion a diwrnodau o absenoldeb yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*


Yn gyffredinol, mae'r diwrnodau a gollir oherwydd absenoldeb salwch wedi parhau'n unol â'r Chwarter blaenorol (Ch4 2025/26); mae nifer yr achosion wedi gostwng gan 16.3% yn ystod Chwarter 1, i gyfanswm o 190 o achosion o absenoldeb. Mae'r gwelliant hwn wedi parhau i ddigwydd ochr yn ochr â chynnydd yn niferoedd cyffredinol y staff, sy'n dangos tuedd gadarnhaol barhaus o ran rheoli absenoldeb salwch ar draws y Gwasanaeth.

Mae **byrdymor** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

### ii. Salwch Byrdymor

Roedd absenoldeb salwch byrdymor yn cyfrif am 0.96% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod Chwarter 1.

Parhaodd nifer y diwrnodau a gollir i salwch byrdymor i leihau yn ystod Chwarter 1, gyda 855 diwrnod yn cael eu colli o gymharu â 928 diwrnod yn Chwarter 4. Gostyngodd nifer yr achosion o salwch byrdymor hefyd yn gyffredinol yn ystod Chwarter 1, er ei fod wedi parhau'n debyg i Chwarter 1 2025/26.




*Ffigur 2. Nifer yr achosion a diwrnodau o absenoldeb byrdymor mewn rolau gweithredol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*


(System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDS) - yn cynnwys yr holl staff gweithredol amser cyflawn, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg).

Mae Prif Swyddogion a Thîm Arweinyddol ehangach y Gwasanaeth (TAG) wedi eu rhannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol wedi'u cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a Phenaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau Adrannau Corfforaethol.

Roedd staff amser cyflawn, sy'n cyfrif am 29% o'r gweithlu, yn cyfrif am 36% o gyfanswm y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch byrdymor yn ystod Chwarter 1, gyda hyd absenoldeb cyfartalog o 7 diwrnod calendr fesul cyflogai.

Staff ar alwad, sy'n cyfrif am 52% o'r gweithlu, oedd yn cyfrif am 48% o'r achosion o absenoldeb byrdymor yn ystod Chwarter 1 ar gyfartaledd. Mae nifer yr achosion o absenoldeb salwch byrdymor ar gyfer cyflogeion Ar Alwad wedi gostwng ychydig i 59 yn ystod Chwarter 1, tra bod nifer y diwrnodau a gollwyd wedi cynyddu gan 8% i 414 o ddiwrnodau wedi'u

colli. Hyd cyfartalog absenoldeb staff ar alwad oedd 7 diwrnod yn ystod Chwarter 1.




*Ffigur 3. Nifer yr achosion a diwrnodau o absenoldeb byrdymor mewn rolau ystafell reoli/corfforaethol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*

Gostyngodd absenoldeb salwch byrdymor yn yr Ystafell Reoli yn ystod Chwarter 1, gydag achosion yn gostwng i 5 o gymharu ag 8 yn Chwarter 4. Gostyngodd y diwrnodau a gollwyd ychydig, o 20 diwrnod yn Chwarter 4 i 17 diwrnod yn Chwarter 1. Dyma'r lefel isaf o achosion a diwrnodau a gollwyd ers dechrau 2025/26, sy'n dangos gwelliant o ran absenoldeb salwch byrdymor staff yr Ystafell Reoli yn ystod y cyfnod.

Staff corfforaethol, sy'n cyfrif am 16% o'r gweithlu, oedd yn cyfrif am 13% o'r achosion absenoldeb byrdymor yn ystod Chwarter 1, gyda gostyngiad yn nifer yr achosion a'r diwrnodau a gollwyd o gymharu â chwarteri blaenorol. Yn ystod Chwarter 1, roedd absenoldeb salwch byrdymor ymhlith staff corfforaethol yn para 5 diwrnod ar gyfartaledd.

### Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Byrdymor (yn ôl achos)

| | RHESWM DROS ABSENOLDEB | ACHOSION | % AMSER A GOLLWYD |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau'r cefn a'r asgwrn cefn | 9 | 14.7% |
| 2 | Iechyd Meddwl - Straen | 11 | 12.6% |
| 3 | Chwydu, Dolur Rhydd | 20 | 9.6% |

*Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion*


Roedd pob cyflwr Cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 28.5% o'r achosion salwch byrdymor yn ystod Chwarter 1, gyda rhesymau'n ymwneud â'r cefn a'r asgwrn cefn yn fwyaf cyffredin. Roedd absenoldeb byrdymor oherwydd materion cyhyrysgerbydol yn para 9.3 diwrnod y pen ar gyfartaledd. Mae ffisiotherapi a ariennir gan y gwasanaeth a therapïau corfforol amgen yn parhau i gael eu defnyddio'n helaeth, yn enwedig ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar yr aelodau isaf, yr ysgwydd, y gwddf a'r cefn, gan gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal absenoldeb.

Roedd yr holl resymau iechyd meddwl yn cyfrif am 15.3% o'r salwch byrdymor yn ystod Chwarter 1, gyda straen y mwyaf cyffredin ar 12.8%. Roedd 11 achos o salwch byrdymor oherwydd straen yn ystod Chwarter 1, am resymau personol a rhesymau'n ymwneud â'r gwaith, gyda hyd cyfartalog o 9.9 diwrnod y pen.

Chwydu/dolur rhydd oedd yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion byrdymor yn ystod Chwarter 1. Roedd hyn, fodd bynnag, yn cyfrif am 9.6% o'r holl salwch byrdymor, gydag absenoldebau'n para 3.9 diwrnod ar gyfartaledd.

### iii. Salwch Hirdymor


Roedd salwch hirdymor yn cyfrif am 3.5% o gyfanswm yr amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod Chwarter 1, gan barhau â'r gostyngiad o 3.8% yn 2025/26. Er bod Chwarter 4 wedi cofnodi llai o ddiwrnodau a gollwyd i salwch hirdymor, gostyngodd nifer yr achosion gan 24.6% i 57 o achosion salwch hirdymor yn ystod Chwarter 1.




*Ffigur 4. Nifer yr achosion a diwrnodau o absenoldeb hirdymor mewn rolau gweithredol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*

Gwnaeth nifer y diwrnodau salwch hirdymor ar gyfer staff amser cyflawn amrywio trwy gydol y flwyddyn flaenorol; mae Chwarter 1 wedi gweld cynnydd yn nifer y diwrnodau absenoldeb o gymharu â Chwarter 4; fodd bynnag, mae nifer yr achosion wedi gostwng eto. Hyd cyfartalog absenoldebau amser cyflawn oedd 50.8 diwrnod yn ystod y cyfnod hwn; fodd bynnag, dechreuodd rhai yn y chwarteri blaenorol, gyda'r hyd cyfartalog cyffredinol yn cynyddu i 109 diwrnod.

Ar gyfer staff ar alwad, gwnaeth nifer y diwrnodau a gollwyd a nifer yr achosion o salwch hirdymor ostwng ychydig yn ystod Chwarter 1 o gymharu â Chwarter 4. Roedd absenoldeb ar alwad yn cyfrif am 55% o'r holl absenoldeb hirdymor, gydag absenoldebau cyfartalog yn para 145 diwrnod.




*Ffigur 5. Nifer yr achosion a diwrnodau o absenoldeb hirdymor mewn rolau ystafell reoli/corfforaethol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*

Ni chofnodwyd unrhyw absenoldeb salwch hirdymor ar gyfer staff Ystafell Reoli yn ystod Chwarter 1.

Yn gyffredinol, mae rolau corfforaethol yn cyfrif am 15.6% o weithlu'r Gwasanaeth ac roeddent yn cyfrif am 10% o'r holl achosion o absenoldeb salwch hirdymor yn ystod Chwarter 1. Gwnaeth absenoldeb salwch hirdymor ymysg staff corfforaethol, o ran nifer y diwrnodau a gollwyd, aros ar lefel debyg i Chwarter 4. Fodd bynnag, gostyngodd nifer yr achosion gan 30% i 7 achos yn ystod Chwarter 1. Hyd cyfartalog absenoldeb salwch hirdymor ar gyfer staff corfforaethol oedd 46 diwrnod yn ystod Chwarter 1; fodd bynnag, dechreuodd rhai mewn chwarteri blaenorol, gyda'r hyd cyfartalog cyffredinol yn cynyddu i 79.8 diwrnod.

**Y 3 Phrif Reswm dros Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl achos)**

| | RHESWM DROS ABSENOLDEB | ACHOSION | % AMSER A GOLLWYD |
|---|---|---|---|
| **1** | Iechyd Meddwl - Straen | 17 | 34.38% |
| **2** | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 9 | 14.37% |
| **3** | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff | 6 | 10.86% |

*Mae '% Amser a Gollwyd' yn seiliedig ar y diwrnodau a gollwyd yn hytrach na nifer yr achosion.*

Absenoldebau Iechyd Meddwl – Straen, Cyhyrysgerbydol – Aelodau Isaf y Corff, a Chyhyrysgerbydol – Aelodau Uchaf y Corff yw'r 3 phrif reswm dros salwch hirdymor o hyd yn Chwarter 1.

Absenoldeb iechyd meddwl oherwydd straen sy'n parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb salwch hirdymor, yn cyfrif am 34.4% o'r absenoldebau hirdymor yn ystod Chwarter 1. Hyd cyfartalog yr absenoldebau hyn oedd 65 diwrnod yn ystod y cyfnod hwn; fodd bynnag, dechreuodd rhai yn y chwarteri blaenorol, gyda'r hyd cyfartalog cyffredinol yn cynyddu i 96.5 diwrnod.

Mae iechyd meddwl a llesiant yn parhau i gael eu cefnogi trwy ddarpariaethau mewnol, fel iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth cyflogeion, ynghyd â chyfeiriadau at wasanaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân ac asiantaethau iechyd meddwl arbenigol eraill.

Yn ystod Chwarter 1, cafwyd 15 o achosion o salwch hirdymor yn ymwneud â chyflyrau cyhyrysgerbydol sy'n effeithio ar aelodau uchaf ac isaf y corff, gan arwain at gyfanswm o 811 o ddiwrnodau wedi'u colli yn ystod y cyfnod. Mae'r absenoldebau hyn yn aml yn ymwneud ag adfer ar ôl llawdriniaeth a'r gofyniad i gyflogeion adennill ffitrwydd, cryfder ac ystod symudiad llawn cyn dychwelyd i rôl weithredol. Lle y bo'n briodol, mae dyletswyddau wedi'u haddasu a phroses dychwelyd yn raddol yn parhau i gael eu defnyddio i alluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt ac yn fwy diogel.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Pob Digwyddiad

**Pob Digwyddiad** – Aethpwyd i **1,729** o ddigwyddiadau yn ystod Chwarter cyntaf 2026/27, sy'n ostyngiad o'r 1,811 o ddigwyddiadau yr aethom iddynt yn ystod Chwarter 1 2025/26.


**Tanau** - Aethpwyd i gyfanswm o **568** o danau yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod hyn yn ostyngiad o 20.5% o'r 712 yr aethom iddynt yn ystod 2025/26 (a oedd yn nifer uwch na'r arfer o danau ar gyfer y cyfnod hwn), mae hyn yn agosach i'n cyfartaledd pum mlynedd o 578.

**Galwadau Diangen** - Cofnodwyd cyfanswm o **748** o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn ostyngiad o 5.4% ar nifer y galwadau diangen a gofnodwyd yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

**GGAau** - Aethpwyd i **413** o ddigwyddiadau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn ystod y cyfnod adrodd, sef y nifer uchaf o Alwadau Gwasanaeth Arbennig yr aethpwyd iddynt yn ystod unrhyw gyfnod rhwng Ebrill a Mehefin yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf.





*Ffigur 6. Nifer y digwyddiadau ym mhob categori digwyddiad yr aethpwyd iddynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r 5 blwyddyn ariannol flaenorol.*





*Ffigur 7. Nifer y digwyddiadau yr aethom iddynt, yn ôl categori digwyddiad, yn ystod pob blwyddyn ariannol a chwarter*

## 3 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDCau)

**Buom mewn 95 o** danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod Chwarter cyntaf 2026/27, sy'n gynnydd o 28.4% o 74 yn ystod Chwarter cyntaf 2025/26.




*Ffigur 8. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r 5 blwyddyn ariannol flaenorol.*




*Ffigur 9. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn y Chwarter hwn ac ym mhob Chwarter yn y 5 blwyddyn ariannol ddiwethaf.*

Wrth edrych ar draws y 5 blwyddyn flaenorol, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi fesul Chwarter yn amrywio trwy gydol y flwyddyn (ffig. 9). Fodd bynnag, gwelir tuedd ostyngol gyffredinol ar draws nifer cyfartalog y TDCau yn y 5 blwyddyn flaenorol.

**Amseroedd Ymateb i TDCau**

Yr amser ymateb cyfartalog i danau damweiniol yn y cartref (ADFs) yn ystod Chwarter 1 2026/27 oedd 11 munud a 29 eiliad, wedi'i fesur o dderbyn yr alwad i gyrraedd yr offer cyntaf. Mae'r mesur hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn eithrio digwyddiadau penodol, sy'n golygu efallai na fydd nifer y digwyddiadau a gynhwysir yn cyfateb i gyfanswm yr ADFs a adroddwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

Yn unol â'r tueddiadau a welwyd yn y Chwarter blaenorol, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn yr amser ymateb yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru. Er gwaethaf nifer uwch o TDCau yn y Chwarter hwn, mae'r amser ymateb cyfartalog wedi gostwng yn gyffredinol.

Bu gostyngiadau sylweddol ar draws Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Fodd bynnag, bu cynnydd mawr yn yr amser ymateb o gymharu â Chwarter 4 y llynedd yn Ynys Môn.

Mae'r cynnydd yn yr amseroedd ymateb cyfartalog yn Ynys Môn yn adlewyrchu'r nifer cymharol isel o danau damweiniol mewn cartrefi yr

aethpwyd atynt yn ystod y chwarter, gydag un ymateb hirach na'r cyfartaledd yn cael mwy o effaith ar y cyfartaledd cyffredinol nag y byddai disgwyl iddo ei chael yn ystod cyfnodau prysurach.


| Sir | TDC | BaB | Cyf. Amser Ymateb (mm:ss) |
|---|---|---|---|
| Conwy | 22 | ↑ 12 | 11:12 |
| Gwynedd | 8 | ↓ -1 | 12:57 |
| Sir Ddinbych | 16 | ↑ 4 | 09:22 |
| Sir y Fflint | 20 | ↑ 2 | 10:44 |
| Wrecsam | 13 | ↓ -2 | 09:11 |
| Ynys Môn | 13 | ↑ 5 | 17:06 |
| **Total** | **92** | **20** | **11:29** |

*Ffigur 10. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, fesul ardal awdurdod unedol. Y newid o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a'r amser ymateb cyfartalog (yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r amser y cyrhaeddodd y peiriant tân cyntaf) yn ystod y cyfnod hwn.*

| Sir | TDC | BaB | Cyf. Amser Ymateb (mm:ss) |
|---|---|---|---|
| Conwy | 11 | ↓ -12 | 16:07 |
| Gwynedd | 18 | ↑ 1 | 13:53 |
| Sir Ddinbych | 13 | ↓ -1 | 13:29 |
| Sir y Fflint | 16 | ↑ 2 | 13:54 |
| Wrecsam | 7 | ↓ -12 | 09:28 |
| Ynys Môn | 13 | → 0 | 13:25 |
| **Total** | **78** | **-22** | **13:40** |

*Ffigur 11. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch4 (Ionawr - Mawrth) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, fesul ardal awdurdod unedol. Y newid o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a'r amser ymateb cyfartalog (yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r amser y cyrhaeddodd y peiriant tân cyntaf) yn ystod y cyfnod hwn.*

## 4 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Cartrefi




*Ffigur 12. 6 phrif achos tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*


Yn ystod Chwarter 1 2026/27 achos mwyaf cyffredin Tanau Damweiniol mewn Cartrefi oedd '**Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)**', a oedd yn gyfrifol am 26% (25 allan o 95) o'r TDCau yr aethpwyd atynt yn y cyfnod adrodd. Mae hon yn gyfran debyg (28%) i'r TDCau a achoswyd gan hyn yn Chwarter 1 2025/26.

Dangosodd achosion eraill o TDCau gynnydd yn yr un cyfnod adrodd. Er enghraifft:

- Gwnaeth 'Coginio – Coginio arall' ddyblu o ran nifer i **18** yn ystod Chwarter 1 2026/27 o gymharu â Chwarter 1 2025/26. Er, mae hyn yn debyg i Chwarter 4 2025/26 pan briodolwyd 20 o TDCau i'r rheswm hwn.

Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos. Er enghraifft:

- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal', a ostyngodd o 7 (9%) yn 2025/26 i **5** (5%).




*Ffigur 13. 6 phrif achos tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a Ch4 (Ionawr - Mawrth) yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.*

Wrth gymharu Chwarter 1 2026/27 â Chwarter 4 2025/26 (ffig.13), gallwch weld bod cynnydd wedi bod mewn '**Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)**' a **'Chyflenwad tanwydd diffygiol – trydan'** ond gostyngiadau mewn **'Coginio – coginio arall'** a **'Nam ar offer neu gyfarpar'**.


Er bod '**Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell wres (neu dân)**' wedi cynyddu o gymharu â Chwarter 4 2025/26, nid yw'n agos at y swm anarferol o uchel o 35 o TDCau a achoswyd gan hyn yn Chwarter 3 2025/26 ac mae'n dal i fod o fewn yr ystod a welir fel arfer mewn unrhyw Chwarter.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Yn Chwarter un 1 gwelwyd y nifer uchaf o TDCau a gofnodwyd mewn Chwarter cyntaf dros y pum mlynedd ddiwethaf; fodd bynnag, cofnodwyd llai o anafiadau nag ar gyfer unrhyw Chwarter cyntaf yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn hefyd wedi dangos gostyngiad o gymharu â'r Chwarter blaenorol, o gyfanswm o **14** o anafiadau i **9**.


Oherwydd y nifer isel o anafiadau yn gyffredinol, gall categorïau unigol gael mwy o ddylanwad ar y patrwm a adroddir a dylid eu dehongli'n ofalus.

Yn bwysig, ni chofnodwyd unrhyw anafiadau difrifol neu angheuol yn ystod y chwarter, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gydag anafiadau difrifol yn parhau ar lefelau isel




*Ffigur 14. Nifer yr anafiadau yn sgil tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*

Trwy gydol 2025/26, cofnodwyd y gyfran fwyaf o anafiadau o TDCau yn ystod Chwarter 3. Yn y Chwarter hwnnw, roedd nifer y TDCau yr aethpwyd atynt yn debyg i Chwarter 1 2026/27 (96 yn Ch3 o gymharu â 95 yn Ch1). Ond roedd nifer yr anafiadau a gofnodwyd yn Ch3 yn uwch na'r nifer a welir fel arfer o gymharu â nifer y TDCau. Wrth edrych ar yr 8 Chwarter blaenorol gallwn weld bod y niferoedd uchel a welwyd yn Chwarter 3 yn uwch na'r cyfartaledd (ffig.14).




*Ffigur 15. Nifer yr anafiadau yn sgil tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn y Chwarter hwn ac ym mhob Chwarter yn y 2 flwyddyn ariannol ddiwethaf.*

Mae dadansoddiad pellach wedi'i gynllunio i ddeall yn well newidiadau diweddar yng nghyfran yr anafiadau a gofnodir sy'n deillio o TDCau.

## 6 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi


**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn **86** (90%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod Chwarter 1 2026/27.

Gwnaeth larymau weithredu a seinio rhybudd yn **49** (51%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol yn ystod y cyfnod adrodd. O'r 49 o TDCau hyn, cafodd y tân ei gyfyngu i'r ystafell lle y cychwynnodd yn **44** (90%) o'r achosion.


Nid oedd larymau wedi'u gosod mewn **9** (9%) o'r cartrefi lle digwyddodd tanau damweiniol.

O'r 95 o Danau Damweiniol mewn Cartrefi yr aethpwyd iddynt, cafodd **83** eu cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, ac roedd **12** heb eu cyfyngu.

Wrth edrych ar y 2 flwyddyn ariannol flaenorol, gwelwyd tuedd ostyngol yn nifer y TDCau heb larwm wedi'i osod. Mae tuedd gynyddol hefyd wedi'i gweld yn nifer y tanau a gyfyngir i'r ystafell lle y cychwynnodd.




*Ffigur 16. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ôl statws larwm mwg ac a oeddent wedi'u cyfyngu ai peidio yr aethpwyd atynt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*




*Ffigur 17. Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ôl statws larwm mwg ac a oeddent wedi'u cyfyngu ai peidio yr aethpwyd atynt yn y Chwarter hwn a phob Chwarter yn y flwyddyn ariannol flaenorol.*

**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi:**

Mae gweithgarwch targedu yn parhau i gael ei wneud yn dilyn digwyddiadau, gydag ymatebion atal ar ôl digwyddiad yn gymesur â lefel y risg a nodwyd.
Mae'r Tîm Atal yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni Archwiliadau Diogel ac Iach trwy gyfarfodydd monitro wythnosol, gan alluogi perfformiad a risgiau sy'n dod i'r amlwg i gael eu rheoli'n weithredol.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo'n rhagweithiol negeseuon diogelwch tân, ffyrdd a dŵr ar draws pob platfform cyfryngau priodol, gan gefnogi amcanion atal a diogelwch cyhoeddus ehangach.

**Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc:**

**Ymweliadau addysgol ag ysgolion yn Chwarter 1 2026/27**

Ysgolion yr Ymwelwyd â Nhw = 55

Nifer y disgyblion = 5077

**Cadetiaid Tân**

Mae Unedau Cadetiaid Tân yn parhau i weithredu yn Amlwch, y Bala, y Waun a Thywyn.

**Ffenics**

| | |
|---|---|
| Nifer y cyrsiau a gynhaliwyd | **4** |
| Nifer y plant a phobl ifanc | **41** |
| % gwelliant ymddygiad | **73%** |
| % adborth cadarnhaol | **100%** |
| % Agored Cymru | **78%** |
| % y plant a phobl ifanc a gwblhaodd y cwrs | **90%** |


Yn ystod Chwarter 1, cymerodd GTAGC ran yng Nghyfarfod Ieuenctid Cymru Gyfan yn Llandrindod. Mae GTAGC wedi cyflawni achrediad fel canolfan Gwobr Ymddiriedolaeth y Brenin ar ôl gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol yn llwyddiannus.

Gan adeiladu ar y cyflawniad hwn, mae disgwyl i GTAGC dreialu ei raglen Ffenics gyntaf gydag Ymddiriedolaeth y Brenin ym mis Ionawr 2027. Yn amodol ar adolygiad llwyddiannus, bydd pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn mabwysiadu cymhwyster Ymddiriedolaeth y Brenin o fis Ebrill 2027, gan gefnogi Fframwaith Ymyrraeth Gynnar Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda phartneriaid addysg ledled Gogledd Cymru i edrych ar gydnabod y cymhwyster fel rhan o Fagloriaeth Cymru, gan helpu i wella cyfleoedd a chanlyniadau i bobl ifanc.


## 7 Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGAau)

Y Chwarter hwn, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn GGAau ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â Gwrthdrawiadau ar y Ffordd o gymharu â Chwarter 1 yn y 5 blwyddyn flaenorol (ffig. 18). Bu cynnydd hefyd mewn galwadau Gwrthdrawiadau ar y Ffordd. Yn gyffredinol, bu cynnydd o **34.5%** (413 yn 2026/27 a 307 yn 2025/26) o gymharu â Chwarter 1 y llynedd. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn GGAau wrth gymharu'r Chwarter hwn â phob Chwarter yn 2025/26 (ffig. 19).




*Ffigur 18. Nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig, wedi'u rhannu yn ôl Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig â Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r 5 blwyddyn ariannol flaenorol.*

Mae'r cynnydd mwyaf nodedig mewn GGAau wedi bod yn y categori **'Cynorthwyo asiantaethau eraill: Cymorth arall i'r Heddlu/Ambiwlans'**, ac yn bennaf ddigwyddiadau "cael mynediad". Mae hyn yn debygol o adlewyrchu cyfranogiad GTAGC mewn treial Cymru Gyfan, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2026, sy'n galluogi atgyfeiriadau uniongyrchol gan y Gwasanaeth Ambiwlans, ynghyd ag ymestyn y trefniant i Dîm Cwympiadau Ambiwlans Sant Ioan o fis Mehefin 2026. Mae'r cynnydd felly'n adlewyrchu'n bennaf newidiadau mewn trefniadau darparu gwasanaethau a chydweithio ag asiantaethau partner.




*Ffigur 19. Nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig, wedi'u rhannu yn ôl Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig â Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, yn y Chwarter hwn a phob Chwarter o'r 5 blwyddyn ariannol flaenorol.*

Roedd y prif gategorïau GGA ar gyfer Chwarter 1 2026/27 (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn cynnwys:

- Aethpwyd i 166 o ddigwyddiadau **'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill'** yn ystod Chwarter 1, 43% yn uwch na'r 116 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2025/26.
- Aethpwyd i 32 o ddigwyddiadau **'Sicrhau Mynediad/Allanfa'** yn ystod Chwarter 1, 77% yn uwch na'r 18 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2025/26.
- Aethpwyd i 23 o ddigwyddiadau **'Achub/Rhyddhau Personau Eraill'** yn ystod Chwarter 1, 26% yn is na'r 31 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2025/26.
- Aethpwyd i 25 o ddigwyddiadau **'Tynnu Gwrthrychau o Bobl'** yn ystod Chwarter 1, 177% yn uwch na'r 9 digwyddiad a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2025/26.

Cynyddodd digwyddiadau gwrthdrawiadau ar y ffordd o 58 yn Chwarter 4 2025/26 i 82 yn Chwarter 1 2026/27. Fodd bynnag, digwyddiadau 'Cynorthwyo Asiantaethau Eraill' sydd wedi parhau i fod y categori mwyaf cyffredin o Alwadau Gwasanaeth Arbennig dros y pum mlynedd ddiwethaf.

**Camau Diogelwch ar y Ffyrdd a gymerwyd hyd yma:**

**Stori Olivia**

Yn ystod Chwarter 1, cyflwynwyd Stori Olivia, sef ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd, i 368 o fyfyrwyr coleg, gan gefnogi ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl ifanc ar y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio ffyrdd ac ymddygiad gyrwyr.

**Tîm Ymgyrch Atal**

Mae'r tîm Ymgyrch Atal yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru (HGC) i addysgu gyrwyr am y Pum Achos Angheuol o wrthdrawiadau traffig ffyrdd difrifol. Yn ystod Chwarter 1:

- gwnaed 1,509 o gyflwyniadau ar ochr y ffordd; a
- daethpwyd ag erlyniadau gyrru yn erbyn 118 o yrwyr yn dilyn gweithgarwch gorfodi.

**BikerDown**

Cyflwynwyd dwy sesiwn BikerDown yn ystod Chwarter 1, gan ymgysylltu â 40 o gyfranogwyr. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig cyngor diogelwch arbenigol gyda'r nod o leihau anafiadau/marwolaethau sy'n gysylltiedig â beiciau modur.

**Gweithgareddau Diogelwch Ffyrdd Parhaus Eraill**

Yn ogystal â'r uchod, mae GTAGC yn parhau i ymgymryd ag ystod o fentrau diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys:


- Gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru ar lansio Ymgyrch Apex, gan gynnwys cyflwyno marciau ffordd PRIME newydd ar ddwy ffordd yng Ngogledd Cymru i helpu beicwyr modur i lywio troeon yn ddiogel; a
- Datblygu adnoddau ymgysylltu wedi'u targedu i gefnogi gyrwyr hŷn, gan gydnabod y proffiliau risg sy'n newid o fewn y grŵp hwn.
- Datblygu cais i sicrhau cyllid grant gan Toyota (Glannau Dyfrdwy). Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu offer i gyflwyno gweithgareddau addysg yn y gymuned.

## 8 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhawyd cyfanswm o **3,617** o Archwiliadau yn Chwarter 1 2026/27, ac o'r rhain:

- Roedd **1,408** (39%) yn archwiliadau blaenoriaeth uchel, y deilliodd **689** (49%) ohonynt o atgyfeiriadau a wnaed gan asiantaethau partner.
- Roedd **712** (20%) yn archwiliadau blaenoriaeth ganolig, y deilliodd **127** (18%) ohonynt o atgyfeiriadau a wnaed gan asiantaethau partner.
- Roedd **1,497** (41%) yn archwiliadau blaenoriaeth isel, y deilliodd **107** (7%) ohonynt o atgyfeiriadau a wnaed gan asiantaethau partner.

Er bod llai o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cwblhau yn gyffredinol nag yn Chwarter 1 2025/26, cynyddodd nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel o 1,265 (27%) yn Chwarter 1 2025/26 i **1,408** (39%) yn Chwarter 1 2026/27. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws parhaus y Gwasanaeth ar gynyddu cyfran yr ymyriadau risg uchel.




*Ffigur 20. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u rhannu yn ôl asiantaeth/dim asiantaeth a statws yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r un cyfnod yn 2025/26.*





*Ffigur 21. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u rhannu yn ôl asiantaeth/dim asiantaeth a statws yn y Chwarter hwn a'r flwyddyn ariannol flaenorol.*


Gofynnwyd i gyfanswm o **440** (12.1%) o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn Chwarter 1 2026/27 gael eu cynnal yn Gymraeg.

Cwblhawyd **84%** o'r Archwiliadau a gwblhawyd yn ystod Chwarter 1 2026/27 o fewn yr amserlen darged. Cwblhawyd 7.8% arall o fewn 30 diwrnod i'w dyddiad cwblhau targed.


Gwnaeth perfformiad yn erbyn yr amserlen gwblhau darged ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel wella ychydig yn ystod Chwarter 1 2026/27, gyda 66% wedi'u cwblhau yn unol â'r targed, o gymharu â 64% yn Chwarter 4 2025/26.





*Ffigur 22. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd erbyn y dyddiad cwblhau targed yn y Chwarter hwn.*




*Ffigur 23. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd erbyn y dyddiad cwblhau targed yn y Chwarter hwn.*




*Ffigur 24. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd erbyn yr amser cwblhau yn y Chwarter hwn.*




*Ffigur 25. Nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd erbyn yr amser cwblhau yn y Chwarter hwn.*

**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae nifer o fesurau wedi'u cyflwyno i gynyddu'r ddarpariaeth o Archwiliadau Diogel ac Iach risg uchel, gan gynnwys blaenoriaethu atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer criwiau gweithredol. Yn ogystal, mae model haenu risg Cymru Gyfan newydd wedi'i gymeradwyo a bydd yn cael ei weithredu o ddechrau Chwarter 3 2026/27.

Bydd y dull diwygiedig yn cefnogi ffocws cryfach ar unigolion sy'n wynebu'r perygl uchaf o dân, gan helpu i gynyddu cyfran yr Archwiliadau Diogel ac Iach risg uchel yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle gallan nhw gael yr effaith fwyaf.

**Rhestr aros**

Mae'r rhestr aros atgyfeirio Archwiliadau Diogel ac Iach yn parhau i gael ei monitro'n agos, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i atgyfeiriadau risg uchel. Er bod nifer yr atgyfeiriadau sy'n aros i gael eu cwblhau wedi cynyddu yn ystod Chwarter 1 o gymharu â Chwarter 4, mae'r sefyllfa gyffredinol yn parhau i fod yn well o gymharu â Chwarter 3 2025/26.

Ar ddiwedd Chwarter 1 2026/27, roedd 1,243 o atgyfeiriadau yn aros i gael eu cwblhau, o gymharu â 1,046 ar ddiwedd Chwarter 4 2025/26 a 1,479 ar ddiwedd Chwarter 3 2025/26.


Mae ystod o fesurau yn parhau i fod ar waith i gefnogi'r ddarpariaeth a lleihau amseroedd aros. Mae'r rhestr atgyfeirio'n cael ei rheoli ar y cyd gan griwiau gweithredol, Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref (GCDCau), personél System Dyletswydd Amser Cyflawn Wrth Gefn (WDSR) a staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau wedi'u haddasu. Yn ogystal, mae staff WDSR wedi cynyddu nifer yr Archwiliadau Diogel a Iach sy'n cael eu cynnal dros y ffôn, a gofynnwyd i wylfeydd gweithredol flaenoriaethu atgyfeiriadau risg canolig ac uchel. Mae'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn parhau i gael eu blaenoriaethu tra'n lleihau'r rhestr aros gyffredinol.

# Ein Hegwyddor Diogelu


## 9 Galwadau Diangen

Ymatebwyd i gyfanswm o **748** o alwadau diangen yn ystod Chwarter 1 2026/27, o gymharu â 710 yn ystod Chwarter 4 2025/26. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys galwadau diangen ar draws pob math o eiddo.
Er ei fod yn uwch na'r Chwarter blaenorol, arhosodd nifer y galwadau diangen yn is na'r hyn a gofnodwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol ym mhob un o'r ddwy flwyddyn flaenorol (ffig. 27).

Cafodd y cynnydd ei ysgogi gan gynnydd mewn galwadau diangen Diffuant, o 267 i **306** o ddigwyddiadau, tra bod galwadau diangen Maleisus wedi gostwng ychydig o 13 i **12** o ddigwyddiadau.
Ni newidiodd nifer y galwadau diangen oherwydd cyfarpar ar **430** o ddigwyddiadau.




*Ffigur 26. Nifer y galwadau diangen yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*





*Ffigur 27. Nifer y galwadau diangen yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, a'r 2 flwyddyn ariannol flaenorol.*


## 10 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol

Cafwyd cyfanswm o **381** o alwadau System Larwm Awtomatig (SLA) masnachol yn ystod Chwarter 1 2026/27, ac aethpwyd at **ddau** o'r digwyddiadau hyn.

Er bod hyn ychydig yn uwch na'r Chwarter blaenorol, arhosodd nifer y galwadau gan SLA masnachol yn is na'r 418 a gofnodwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2025/26.




*Ffigur 28. Nifer y galwadau gan System Larwm Awtomatig Masnachol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*





*Ffigur 29. Nifer y galwadau o System Larwm Awtomatig Masnachol yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 2 flwyddyn ariannol flaenorol.*


## 11 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd cyfanswm o **109** o alwadau System Larwm Awtomatig ysbytai yn ystod Chwarter 1 2026/27, o gymharu ag 82 yn Chwarter 4 2025/26. Er y cynnydd o'r Chwarter blaenorol, arhosodd nifer y galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai yn is na'r 119 a gofnodwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2025/26 (ffig. 31).

O'r galwadau a dderbyniwyd, aethpwyd at **33.9%** o'r digwyddiadau o gymharu â 42.6% yn Chwarter 4 2025/26. Roedd hyn yn gyson i raddau helaeth â'r gyfran yr aethpwyd atynt yn ystod Chwarter 1 2025/26 (33.6%).




*Ffigur 30. Nifer y galwadau SLA Ysbyty yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*




*Ffigur 31. Nifer y galwadau SLA Ysbyty yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 2 flwyddyn ariannol flaenorol.*

**Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai:**


Arhosodd nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn adeiladau BIPBC yn isel yn ystod Chwarter 1, sy'n adlewyrchu'r dull gweithio cydweithredol parhaus rhwng GTAGC a BIPBC i gryfhau trefniadau diogelwch tân ar draws yr ystâd iechyd.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae GTAGC wedi cyflwyno rhaglen archwilio gylchol sy'n canolbwyntio ar safleoedd risg uwch, wedi'i chefnogi gan fframwaith archwilio cynhwysfawr sy'n cwmpasu cydymffurfiaeth reoleiddiol, sicrwydd gweithredol, a gweithgareddau diogelwch tân allweddol fel profi, ymarfer a chynnal a chadw. Cwblhawyd yr archwiliad ardal Ganolog yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin 2026, gyda chanlyniad boddhaol i raddau helaeth. Mae'r archwiliad terfynol o'r cylch presennol wedi'i drefnu ar gyfer Chwarter 3 2026/27 yn Ysbyty Maelor Wrecsam


Mae cydweithio hefyd wedi parhau i gefnogi datblygiadau sylweddol yn yr ystâd, gan gynnwys ehangu Ysbyty Cyffredinol Llandudno a disodli systemau yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Yn ogystal, mae trafodaethau ar y gweill ar gyflwyno rhaglen hyfforddi Memoranda Technegol Iechyd (HTM) yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a fyddai'n cryfhau capasiti'r Gwasanaeth i gynnal archwiliadau ar draws safleoedd BIPBC ymhellach.

## 12 CEF Berwyn

Aethpwyd i gyfanswm o **10** prif dân yn CEF Berwyn yn ystod Chwarter 1 2026/27, o gymharu â 5 yn Chwarter 4 2025/26. Er gwaethaf y cynnydd hwn, roedd y nifer a gofnodwyd yn dal i fod yn sylweddol is na'r hyn a welwyd cyn Chwarter 2 2025/26, sy'n cyd-fynd â chyflwyno fêps gwrth-ymyrraeth yn y carchar.




*Ffigur 32. Nifer y prif danau yn CEF Berwyn yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 5 blwyddyn ariannol flaenorol.*




*Ffigur 33. Nifer y prif danau bwriadol yr aethpwyd atynt gyda'r amser peiriant a ymrwymwyd (HH:MM) yn ystod Ch1 (Ebrill – Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 2 Chwarter blaenorol.*

**Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn**

Mae nifer y digwyddiadau yn CEF Berwyn yn parhau i amrywio, sy’n adlewyrchu natur newidiol ymddygiadau cynnau tân a'r heriau sy'n gysylltiedig ag atal camddefnyddio eitemau bob dydd fel ffynonellau tanio. Ar ôl cyflwyno cynhyrchion fêp diwygiedig, a gyfrannodd i ddechrau at ostyngiad mewn digwyddiadau, mae unigolion wedi parhau i addasu eu dulliau, sy'n gofyn am fonitro a gwaith partneriaeth parhaus.

Mae risgiau sy'n dod i'r amlwg wedi'u nodi a'u rhannu gyda'r gweithgynhyrchwyr perthnasol, sy'n cymryd camau i gryfhau nodweddion diogelwch cynhyrchion ymhellach. Mae GTAGC yn parhau i weithio'n agos gyda CEF Berwyn a phartneriaid eraill i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, asesu risgiau, ac addasu trefniadau atal ac ymateb lle bo angen.

Yn dilyn digwyddiad yn Chwarter 4 2025/26 mewn ardal y tu allan i'r amgylchedd llety arferol, cynhaliwyd adolygiad amlasiantaethol i ystyried gwersi a ddysgwyd a sicrhau bod trefniadau gweithredol yn parhau i fod yn effeithiol ar draws pob ardal ar y safle. Arweiniodd y dull cydweithredol hwn at gamau gweithredu wedi’u cynllunio i gryfhau parodrwydd ymhellach a chefnogi ymateb gweithredol i sefyllfaoedd sy’n cynnwys digwyddiadau llai nodweddiadol.

# Ein Hegwyddor Ymateb

**13 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA)**
Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o argaeledd cyfartalog peiriannau mewn gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad (SDAA) rhwng 06:00 a 18:00. Dangosir argaeledd fesul mis ac fe'i cyflwynir ar wahân ar gyfer dyddiau'r wythnos a phenwythnosau/gwyliau banc i gynnig cyd-destun ychwanegol ar batrymau argaeledd ar draws y cyfnod adrodd.

Mae'r ffigurau'n ymwneud â gorsafoedd SDAA nad ydynt yn gweithredu ochr yn ochr â systemau dyletswydd amser cyflawn neu griw dydd.

| Diwrnod/Mis | Ebr | Mai | Meh | Ch1 2026/27 |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiau'r Wythnos** | 6 | 6 | 6 | **6** |
| **Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc)** | 12 | 11 | 9 | **11** |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | 8 | 8 | 7 | **7** |

Nodwch fod rhifau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer y dechreuwyr a'r ymadawyr â'r SDAA yn ystod Chwarter 1 2026/27 o gymharu â 2025/26.

Mae'r ffigurau niferoedd gweithwyr fesul pen, dechreuwyr ac ymadawyr yn cael eu hadrodd gan ddefnyddio mesurau gweithlu sefydledig ac yn cael eu darparu ar gyfer cyd-destun. Oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r mesurau hyn yn cael eu cyfrifo, efallai na fydd nifer net y dechrwuwyr ac ymadawyr yn cyfateb i'r newid yn y niferoedd fesul pen a adroddwyd rhwng cyfnodau.

| Blwyddyn | Dechreuwyr | Ymadaw yr | Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Cyfnod | Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| **Ebr 2025 – Maw 2026** | 88 | 71 | 512 | 427 |
| **Ebr 2026 - Meh 2026** | 11 | 16 | 526 | 441 |
| **+/-** | | | 14 | 14 |


**Dechreuwyr** – nifer y dechreuwyr SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

**Ymadawyr** - nifer yr ymadawyr â'r SDAA ym mhob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r SDAC.

**Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter** – nifer y swyddi SDAA sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

**Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)** – nifer yr unigolion sydd ar yr SDAA yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

## 14 Cynllun Argaeledd 18 Pwmp




| | Argaeledd Gofynnol wedi'i Gyflawni | Argaeledd Gofynnol heb ei Gyflawni |
|---|---|---|
| Llun-Gwener | 61 | 0 |
| Penwythnosau/ Gwyliau Banc | 30 | 0 |
| **Cyfanswm** | **91** | **0** |

*Ffigur 34. Canran y diwrnodau lle roedd o leiaf 18 pwmp ar gael rhwng 06:00 a 18:00, gan gynnwys dadansoddiad o nifer y diwrnodau yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*

Yn ystod Chwarter 1 2026/27 roedd o leiaf 18 pwmp ar gael yn ystod y dydd (06:00 – 18:00) ar draws y rhanbarth cyfan. Mae hyn yn sicrhau bod digon o gapasiti gweithredol ledled y Gwasanaeth, gyda'r holl ardaloedd o fewn y Cynllun Grŵp 16 yn meddu ar gapasiti priodol.

| | % Argaeledd gofynnol wedi'i gyflawni | Diwrnodau argaeledd gofynnol heb ei gyflawni |
|---|---|---|
| 2021/22 | 99.97% | 1 |
| 2023/24 | 99.53% | 11 |
| 2025/26 | 99.93% | 2 |
| 2022/23 | 99.93% | 1 |
| 2024/25 | 99.90% | 2 |
| 2026/27 | 100.00% | 0 |

*Ffigur 35. Canran y diwrnodau lle roedd o leiaf 18 pwmp ar gael rhwng 06:00 a 18:00, gan gynnwys dadansoddiad o nifer y diwrnodau lle nad oedd y 18 pwmp gofynnol ar gael fesul blwyddyn ariannol o 2021/22 i 2026/27.*

Fel y gwelir yn ffigur 35, mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bod o leiaf 18 pwmp ar gael yn ystod y dydd (06:00 – 18:00) ar draws y rhanbarth cyfan dros 99% o'r amser am y 5 blwyddyn ariannol ddiwethaf. Dylid nodi bod argaeledd pwmp yn cael ei fesur a'i adrodd bob awr. O ganlyniad, cofnodir bod diwrnod wedi methu â bodloni’r gofyniad os yw argaeledd pympiau’n disgyn o dan 18 yn ystod unrhyw un awr. Mewn rhai achosion, gall hyn orliwio hyd y lefelau argaeledd is, oherwydd gall awr gael ei dosbarthu fel un lle methwyd â bodloni’r gofyniad hyd yn oed pan nad oedd pwmp ar gael am gyfnod byr o fewn yr awr honno (er enghraifft, 10 munud).


## 15 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu a'n dibyniaeth ni fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg fod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïonau Lithiwm


Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd, sef FaRDaP (Platfform Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodir cyn i FaRDaP gael ei gyflwyno.

Mae'r crynodeb canlynol yn dangos nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ystod Chwarter cyntaf 2026/27, lle nodwyd technoleg benodol sy'n dod i'r amlwg yng nghofnodion y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys GGAau ond yn eithrio tanau bwriadol.




*Ffigur 36. Nifer y digwyddiadau sy'n cynnwys technolegau sy'n dod i'r amlwg, ac eithrio tanau bwriadol, yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*

D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i dybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.





*Ffigur 37. Nifer y digwyddiadau sy'n cynnwys technolegau sy'n dod i'r amlwg, wedi'u rhannu yn ôl categori digwyddiad, yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.*

# Ein Hegwyddor Amgylchedd

**16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau**

Cofnodwyd **152** o danau glaswelltir, coetir a chnydau yn ystod Chwarter 1 2026/27, gostyngiad o 40% o’r **254** a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod adrodd yn y flwyddyn flaenorol.





*Ffigur 38. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 9 blwyddyn ariannol flaenorol.*

## 17 Tanau gwyllt

Mae cyfanswm y tanau gwyllt a adroddwyd yn Chwarter 1 2026/27 wedi gostwng gan 88% (o **25** i **3**) o gymharu â'r un cyfnod adrodd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn hefyd yn ostyngiad o'r **5** a adroddwyd yn Chwarter 4 2025/26.


Dylid nodi bod y diffiniad a'r paramedrau gweithredol a ddefnyddir i ddosbarthu tanau gwyllt wedi esblygu dros y cyfnod a gyflwynir. Er mwyn sicrhau cysondeb ac i alluogi cymhariaeth ystyrlon dros amser, mae'r ffigurau a ddangosir yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfrifo yn unol â'r diffiniad cyfredol o dân gwyllt, gyda data hanesyddol wedi'i ail-ddadansoddi'n ôl-weithredol i gyd-fynd â'r paramedrau hyn.




*Ffigur 39. Nifer y galwadau tanau gwyllt yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 9 blwyddyn ariannol flaenorol.*

## 18 Llifogydd ac Achub o Ddŵr

Parhaodd digwyddiadau llifogydd i leihau yn ystod Chwarter 1 2026/27, yn unol â'r duedd a welwyd yn yr un cyfnod y llynedd. I'r gwrthwyneb, mae digwyddiadau achub o ddŵr wedi cynyddu'n raddol ar draws cyfnodau Chwarter 1 dros y pum mlynedd ddiwethaf, gyda 2026/27 yn gweld y cyfanswm uchaf mewn Chwarter cyntaf yn y cyfnod hwnnw.




*Ffigur 40. Nifer y digwyddiadau llifogydd ac achub o ddŵr yn Ch1 (Ebrill - Mehefin) yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 a'r 4 blwyddyn ariannol flaenorol.*

**Gweithgaredd Diogelwch Dŵr:**

**Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr**

Parhaodd Cynllun Peilot Diogelwch Dŵr GTAGC, Nofio Cymru a Ffit Cymru i ddatblygu yn ystod Chwarter 1 2026/27, gyda nifer o sesiynau'n cael eu cyflwyno ledled Sir Conwy. Mae'r adborth gan ysgolion a sefydliadau partner a gymerodd ran wedi bod yn gadarnhaol, gan ddangos gwerth y rhaglen wrth godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith plant a phobl ifanc.

Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, mae cynlluniau ar waith i ymestyn y ddarpariaeth i Ynys Môn a Wrecsam, gan ehangu mynediad i'r rhaglen ledled Gogledd Cymru. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ymgysylltu ag ystod ehangach o ysgolion i helpu i sicrhau bod addysg diogelwch dŵr yn cyrraedd cymunedau sydd â lefelau amrywiol o gysylltiad ag amgylcheddau dyfrol.

Er mwyn helpu gyda'r ehangu yn y dyfodol, mae staff GTAGC ychwanegol wedi'u recriwtio i ffurfio ail garfan o diwtoriaid diogelwch dŵr. Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2026 a bydd yn cynyddu capasiti'r Gwasanaeth ymhellach i ddarparu addysg diogelwch dŵr a gweithgarwch atal ar draws y rhanbarth.

**Ymgyrch Deall Peryglon Dŵr**
Fel rhan o'r ymgyrch Deall Peryglon Dŵr, cyflwynodd GTAGC ddigwyddiad ymgysylltu diogelwch dŵr ym Metws-y-Coed yn ystod Chwarter 1. Gan weithio ochr yn ochr â chriwiau a phartneriaid lleol, ymgysylltodd personél â thua 200 o aelodau o'r cyhoedd ger Pont-y-Pair, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr a hyrwyddo mwynhad diogel o ddyfrffyrdd lleol.

**Cynhadledd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA)**
Mae GTAGC a Nofio Cymru wedi cael eu gwahodd i gyflwyno ar y cyd yng Nghynhadledd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) ym mis Hydref 2026. Bydd y cyflwyniad yn arddangos dull cydweithredol y ddau sefydliad o ran darparu addysg diogelwch dŵr a gweithgarwch atal, wrth rannu dysgu ac arfer da gyda phartneriaid o bob cwr o'r DU.

**Pentre Peryglon**
Mae gwaith yn parhau gyda Pentre Peryglon i gryfhau'r broses o ddarparu addysg a gweithgareddau ymwybyddiaeth diogelwch dŵr. Fel rhan o'r cydweithrediad hwn, mae GTAGC wedi cefnogi'r broses o gyflwyno cafn dŵr pwrpasol, sy'n ffordd ddifyr ac ymarferol o ddangos y peryglon sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau dŵr mewndirol.
Mae staff Pentre Peryglon hefyd wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi'r defnydd effeithiol o'r offer a chyflwyno negeseuon diogelwch dŵr allweddol. Bydd hyn yn helpu i wella cyfleoedd addysgol i ymwelwyr a chryfhau cyrhaeddiad ac effaith gweithgarwch atal diogelwch dŵr ledled Gogledd Cymru ymhellach.

**Diogelwch Dŵr Cymru**
Mae GTAGC yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Diogelwch Dŵr Cymru, gan weithio gyda phartneriaid ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno mentrau diogelwch dŵr ar sail tystiolaeth. Yn ystod Chwarter 1, gwnaed cynnydd tuag at sefydlu Partneriaeth Diogelwch Dŵr yn Wrecsam, gan helpu i gryfhau cydweithrediad lleol a chefnogi dull gweithredu cydgysylltiedig o ran gweithgarwch atal diogelwch dŵr ledled y sir.

Mae GTAGC yn parhau i weithio gyda Diogelwch Dŵr Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau atal boddi ledled Cymru. Yn ystod Chwarter 1, cyfrannodd y Gwasanaeth at waith yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno proses Adolygu Digwyddiadau Boddi strwythuredig, gan helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu, cefnogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a gwella strategaethau diogelwch dŵr yn y dyfodol ymhellach.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfeilion), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau a pheirianwaith, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill, megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i ymdrin â nhw. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i ymdrin â nhw.<br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun.<br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi ymdrin â nhw. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ffyrdd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu bod digwyddiad ac yn mynd i leoliad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, nac wedi bodoli.<br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r GTA yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn. |
| Galwadau Diangen – SLA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio ac unigolyn yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Anheddau | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. cartref lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Nad yw'n adeilad preswylwyr | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Byrdymor | Absenoldebau o 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor | Absenoldebau o 28 diwrnod calendr a mwy. |